Canllawiau Ymgeisio

Garfield Weston FOUNDATION

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi elusennau arbennig sy'n gwneud gwaith pwysig. Wrth i ni barchu eich amser, hoffem sicrhau bod y broses o wneud cais mor hawdd a di-lol â phosibl. Gan wybod faint o amser ac ymdrech sydd ei angen i godi arian, rydym wedi sicrhau bod ein canllawiau yn syml, yn glir ac yn effeithlon er mwyn eich helpu i gyflwyno'r achos gorau posibl. Rydym wedi gwrando ar y cwestiynau mwyaf cyffredin a gawn gan ein hymgeiswyr, ac wedi rhoi sylw i bob un o'r rhain yn ein canllawiau.

Darllenwch y canllawiau hyn yn ofalus. Mae cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnom yn golygu na fydd yn rhaid i ni oedi pethau drwy ofyn i chi am ragor o fanylion. Yn yr un modd, po fwyaf eglur yw eich cais, y cyflymaf y gallwn roi gwybod i chi a yw'n llwyddiannus ai peidio.

Mae ein canllawiau'n ymdrin â'r canlynol:

- Yr hyn rydym yn ei ariannu – y mathau o sefydliad a'r gwaith rydym yn ei ariannu, a ddim yn ei ariannu
- Mathau o grantiau
- Fformat y cais
- Beth i'w gynnwys yn eich cais
- Canllawiau ar grantiau mawr
- Y broses ymgeisio

Beth allwn ei gyllido

Y math o sefydliadau rydym yn eu hariannu

Rydym yn ariannu sefydliadau sy'n gweithio yn y meysydd canlynol:

- Y Celfyddydau
- Cymunedol
- Addysg
- Yr amgylchedd
- Ffydd
- Iechyd
- Amgueddfeydd a Threftadaeth
- Lles
- Ieuenctid

Peidiwch â phoeni os yw eich sefydliad yn gweithio mewn mwy nag un o'r meysydd hyn. Nid ydym yn clustnodi arian ar gyfer meysydd gwaith neu ranbarthau daearyddol penodol. Mae gan unrhyw sefydliad cymwys sy'n bodloni ein meini prawf cyllido gyfle teg i gael ei ariannu.

Rydym yn cefnogi sefydliadau sy'n un o'r canlynol:

- Elusennau cofrestredig yn y DU
- Sefydliadau Corfforedig Elusennol
- Sefydliadau sy'n cael eu hesemptio a'u heithrio o dan ganllawiau'r Comisiwn Elusennau
- Cymdeithasau Tai sy'n ymddangos ar Restr Darparwyr Cofrestredig y llywodraeth

I weld a yw eich sefydliad yn cyfateb i'n cyllid ni, cwblhewch ein Cwis Cymhwysedd syml ar-lein

Y math o sefydliadau nad ydym yn eu hariannu

Rydym yn dilyn canllawiau y Comisiwn Elusennau ar gyfer y sefydliadau sydd wedi'u cofrestru, eu hesemptio neu eu heithrio. Mae hyn yn golygu na allwn ariannu'r canlynol:

- unigolion
- Cwmnïau Buddiannau Cymunedol
- Cymdeithasau Budd Cymunedol
- mentrau cymdeithasol
- awdurdodau a chynghorau lleol

Nid ydym yn ariannu gwaith sy'n digwydd y tu allan i'r DU (ac eithrio Tiriogaethau Tramor y DU, lle gellir cefnogi prosiectau). Nid ydym yn ariannu sefydliadau sy'n achub neu'n darparu lloches i anifeiliaid.

Rydym yn cefnogi elusennau sydd â gwerth blwyddyn o leiaf o gyfrifon blynyddol. Er mwyn bod yn gymwys i wneud cais, golyga hyn y bydd angen i chi gyflwyno un o'r canlynol:

- eich cyfrifon blynyddol, wedi'u harchwilio'n annibynnol
- copi o'ch datganiad blynyddol gan y Comisiwn Elusennau

Peidiwch â gwneud cais nes bod gennych chi gyfrifon, gan fod eich cyllid yn chwarae rhan bwysig yn ein penderfyniadau.

Gwaith nad ydym yn ei gyllido

Ni allwn ariannu'r gweithgareddau neu'r meysydd gwaith canlynol:

- digwyddiadau unigryw neu flynyddol megis 'gala' neu wyliau, hyd yn oed os ydynt at ddibenion codi arian
- digwyddiadau tymor byr sy'n cael eu cynnal am ychydig wythnosau yn unig
- nawdd
- astudiaethau dichonolrwydd
- apeliadau codi arian generig neu dorfol
- gweithgaredd sy'n digwydd dramor, gan gynnwys teithiau tramor ac apeliadau argyfwng
- gwasanaethau a sefydliadau achub ac argyfwng ee ambiwlansys awyr, a thimau achub ar y mynydd a'r môr

- gweithiau celf neu henebion cyhoeddus
- apeliadau gwaddol
- ymgyrchu a lobïo os mai dyna yw prif weithgaredd neu pwrpas eich sefydliad
- sefydliadau neu lunwyr grantiau eraill sy'n rhoi grantiau i unigolion
- gweithgareddau sydd eisoes wedi digwydd neu brosiectau sydd eisoes wedi'u cwblhau
- cyflogau unigol ar gyfer swyddi penodol*

*Nid ydym yn ariannu cyflogau swyddi penodol ee eich Rheolwr Gweithrediadau. Y rheswm syml am hyn yw, pe baem yn methu adnewyddu ein cymorth, ni fyddem eisiau rhoi aelod o'ch staff mewn perygl. Rydym **yn** rhoi grantiau ar gyfer costau gweithredu/craidd y gellir eu defnyddio tuag at eich costau rhedeg cyffredinol. Rydym yn deall bod eich staff yn chwarae rhan hanfodol yn eich gwaith, felly gallwch ddefnyddio rhan o grant costau gweithredu/craidd tuag at eich bil cyflog cyffredinol.

Ein grantiau

Mae'r mathau o grantiau rydym yn eu rhoi, ni waeth beth yw eu maint, yn tueddu i ddisgyn i un o dri maes:

- costau gweithredu/craidd
- prosiectau cyfalaf
- prosiectau/gweithgareddau penodol

Does dim ots gennym ni am beth rydych chi'n gwneud cais, ond rydym yn argymell eich bod yn gofyn am yr hyn sydd ei angen fwyaf ar eich sefydliad. Yn ein profiad ni, mae hyn yn dueddol o gryfhau eich cais.

Rydym yn annog eich sefydliad i gael amrywiaeth dda o ffynonellau incwm. Mae hyn yn golygu nad ydych yn dibynnu'n ormodol ar unrhyw ffynhonnell neu gyllidwr penodol, gan fod hyn yn helpu cynaliadwyedd ariannol eich sefydliad. Rydym yn fodlon iawn ystyried rhoi grant tuag at gostau eich sefydliad neu'ch prosiect, ond yn annhebygol o ariannu'r rhan fwyaf o'ch costau.

Mae ein Hymddiriedolwyr yn brofiadol am lunio grantiau ac maent yn rheoli arian y Sefydliad yn ofalus. Byddant yn defnyddio eu barn i benderfynu a ydynt yn gallu ariannu eich sefydliad ai peidio, a beth yn union y gall maint y grant fod. Mae hyn yn golygu hefyd nad oes rhaid i chi ofyn am swm penodol, er bod croeso i chi wneud hynny. Beth bynnag a fo, dywedwch wrthym faint o arian sydd gennych ar ôl o hyd i'w godi.

Mathau o Grantiau

Pa fath bynnag o grant y byddwch yn gwneud cais amdano, darllenwch bob adran i ddeall beth rydym yn chwilio amdano a beth yw graddfa debygol y grant.

Grantiau costau gweithredu/craidd

Beth yw eu pwrpas?
Mae'r grantiau hyn yn cael rhoi at gostau rhedeg eich sefydliad. Mae hyn yn golygu y gellir eu defnyddio i helpu i dalu eich biliau neu eich rhent, ac fel cymorth tuag at dalu cyflogau eich gweithwyr.

Nid ydym yn defnyddio'r term 'anghyfyngedig', gan na ellir rhoi ein grantiau costau gweithredu/craidd tuag at waddolion neu eu defnyddio i gronni cronfeydd ariannol wrth gefn eich sefydliad. Eu pwrpas yw helpu eich sefydliad i gyflawni ei waith hanfodol. Cyfeirir atynt weithiau fel 'grantiau refeniw' gan gyllidwyr eraill.

Beth sydd angen i mi ei ystyried?
Os oes gan eich sefydliad incwm sy'n llai na £100,000, efallai y byddai'n haws i chi wneud cais am gyfraniad at eich costau craidd, yn hytrach na gwneud cais am brosiect penodol. Mae'r rhan fwyaf o'n grantiau yn cael eu rhoi i elusennau bach a hanfodol, felly rydym yn fwy na pharod i groesawu ceisiadau ar gyfer costau craidd syml.

Gellir rhoi grantiau costau gweithredu/craidd am flwyddyn, neu dros gyfnod o ddwy neu dair blynedd – rydym yn galw'r grantiau hyn yn 'grantiau aml-flwyddyn'. Cofiwch ein bod yn fwy tebygol o roi grant aml-flwyddyn os ydym wedi ariannu eich sefydliad yn y gorffennol, ac wedi deall effaith eich gwaith.

Beth yw maint y grantiau gweithredu/costau craidd?
Ni allwn ariannu eich holl gostau gweithredu, a bydd maint y grant yn amrywio yn dibynnu ar faint eich sefydliad. Fel rheol gyffredinol, nid ydym yn debygol o ariannu mwy na 10% o gyfanswm eich cyllideb flynyddol.

Os yw eich sefydliad yn dymuno gwneud cais am £100,000 neu fwy, rydym yn disgwyl i'ch incwm blynyddol neu gost eich prosiect fod dros £1 miliwn. Cyfeiriwch at ein canllawiau ar gyfer y rhaglen Grantiau Mawr.

Grantiau prosiect cyfalaf

Beth yw eu pwrpas?
Mae 'cyfalaf' yn golygu gwaith adeiladu/atgyweirio, neu'r offer sydd ei angen i gyflawni gwaith eich sefydliad.

Beth sydd angen i mi ei ystyried?
Os ydych chi'n gwneud cais ar sail gwaith adeiladu neu waith atgyweirio, ystyriwch y canlynol.

- Dylid sicrhau unrhyw ganiatâd cynllunio perthnasol cyn i chi wneud cais. Os ydych chi'n gwneud cais am grant fydd yn ariannu gwaith ar adeilad crefyddol, rydym yn disgwyl y bydd caniatâd adrannol neu rywbeth tebyg ar gael hefyd.
- Os nad ydych yn berchen ar eich adeilad, nid ydym yn debygol o roi grant, oni bai fod gennych o leiaf 20 mlynedd ar eich prydles.
- Dywedwch wrthym beth mae eich sefydliad yn ei wneud i wella effeithlonrwydd amgylcheddol eich adeilad. Os ydych chi'n gweithio tuag at ardystiad ynni neu amgylcheddol penodol (ee BREEAM), dywedwch wrthym.

- Dywedwch wrthym sut y bydd eich prosiect cyfalaf yn effeithio ar gostau gweithredu parhaus eich sefydliad. Er enghraifft, a fydd adeilad mwy yn costio mwy i'w redeg? Os felly, dywedwch wrthym sut y byddwch yn talu'r costau hyn. Mae'n bosibl y bydd eich prosiect cyfalaf yn arwain at arbedion costau, felly dywedwch wrthym am hynny!
- Dywedwch wrthym pwy fydd yn rheoli eich prosiect cyfalaf, a rhannwch ychydig o wybodaeth am unrhyw brofiadau perthnasol sydd ganddynt.
- Rydym yn disgwyl i'r dyfynbrisiau ar gyfer prosiectau cyfalaf fod yn gyfredol a dim mwy na thri mis oed, lle bo modd.
- Rydym yn argymell bod gennych oddeutu hanner cyfanswm costau'r prosiect cyn gwneud cais.
- Rydym yn disgwyl gweld trefniadau priodol wrth gefn yng nghyllideb eich prosiect, a fydd yno i'ch helpu os bydd costau eich prosiect yn codi, neu os bydd y prosiect yn wynebu oedi.
- Cofiwch gynnwys llun o'r adeilad rydych chi'n gwneud cais amdano yn eich cynnig. Mae'n helpu i ddod â'ch prosiect yn fyw i ni!

Beth yw maint grantiau prosiect cyfalaf?
Fel arfer, nid yw ein grantiau cyfalaf yn fwy na 10% o gyfanswm cost y prosiect. Fodd bynnag, ar gyfer prosiectau cymunedol lleol (ee neuaddau pentref, canolfannau cymunedol, addoldai ac ati), nid yw'r grantiau'n debygol o fod yn fwy na £30,000, beth bynnag fo maint y prosiect. Yn ein profiad ni, mae tystiolaeth o weithgareddau codi arian lleol yn dangos faint mae eich cymuned leol yn gwerthfawrogi eich sefydliad. Felly, dywedwch wrthym beth rydych chi'n ei wneud i godi arian yn eich ardal leol – mae gennym fwy o ddiddordeb yn y gweithgaredd yn hytrach na'r symiau.

Os yw eich sefydliad yn dymuno gwneud cais am £100,000 neu fwy, rydym yn disgwyl i'ch incwm blynyddol neu gost eich prosiect fod dros £1 miliwn. Cyfeiriwch at ein canllawiau ar gyfer y rhaglen Grantiau Mawr.

Grantiau prosiect/gweithgaredd penodol

Beth yw eu pwrpas?
Mae'r grantiau hyn ar gyfer prosiect neu faes penodol o'ch gwaith. Bydd ganddo gwmpas gwaith ac amserlen wedi'i diffinio, er enghraifft:

- prosiect allgymorth theatr gyda chymunedau ar y cyrion dros gyfnod o naw mis
- gwasanaethau gwybodaeth a chyngor sefydliad iechyd dros ddwy flynedd

Beth sydd angen i mi ei ystyried?

- Mae'n annhebygol mai ni fydd unig noddwr y prosiect, felly dywedwch wrthym ba ffynonellau ariannu eraill rydych yn eu cynnwys yn eich cynllun codi arian.
- Rydym eisiau deall yr holl gostau sy'n gysylltiedig â chyflawni eich prosiect, gan gynnwys deunyddiau a chyfraniad rhesymol at orbenion neu gostau craidd eich sefydliad (hyd at 15%).
- Rydym yn argymell eich bod yn sicrhau oddeutu hanner cyfanswm costau'r prosiect cyn gwneud cais.

Beth yw maint grantiau prosiect?
Mae'r grantiau'n amrywio yn ôl cyfanswm cost a chwmpas y prosiect, ond mae ein grantiau'n tueddu i fod yn 10-20% o gyfanswm cost eich prosiect.

Os yw eich sefydliad yn dymuno gwneud cais am £100,000 neu fwy, rydym yn disgwyl i'ch incwm blynyddol neu gost eich prosiect fod dros £1 miliwn. Cyfeiriwch at ein canllawiau ar gyfer y rhaglen Grantiau Mawr.

Fformat eich cais

Ein nod yw gwneud pethau mor syml a pherthnasol â phosibl i'ch sefydliad. Yn hytrach na gofyn i chi lenwi ffurflen hir a chymhleth, rydym yn edrych ymlaen at glywed am eich gwaith yn eich geiriau eich hun.

Nodyn: Mae'r canllawiau hyn wedi'u hysgrifennu yn Gymraeg i'ch cymorth gyda'ch cais, ond **yn anffodus nid ydym yn derbyn ceisiadau a ysgrifennwyd yn y Gymraeg**. Os gwelwch yn dda gofynnwn i chi gyflwyno eich cais mewn Saesneg clir a syml.

Rydym yn gofyn am y canlynol:

- mai dogfen wedi'i theipio yw eich cais, sy'n cynnwys dim mwy na 10 ochr A4, ac wedi'i hysgrifennu mewn ffont maint 11 neu fwy. Os gallwch chi ddweud popeth sydd ei angen arnom gan ddefnyddio llai o dudalennau, gwnewch hynny!
- eich bod yn cynnwys yr holl wybodaeth yn y ddogfen hon – ni allwn dderbyn atodiadau
- eich bod yn cadw'r cais fel dogfen PDF neu Word

Darllenwch y *Broses Ymgeisio* i gael gwybodaeth am sut mae cyflwyno eich cais, a beth arall y mae angen i chi ei anfon atom fel rhan o'r broses.

Beth i'w gynnwys yn eich cais

Darllenwch yr adran hon yn ofalus er mwyn i chi wybod yn union beth y mae angen i ni ei wybod am eich sefydliad. Mae hyn yn golygu y byddwn yn gallu adolygu eich cais yn brydlon a rhoi gwybod i chi os byddwch yn llwyddiannus. Os oes rhaid i ni ofyn llawer o gwestiynau oherwydd bod gwybodaeth ar goll, bydd hyn yn arafu eich cais, rhywbeth mae pawb eisiau ei osgoi!

- Crynodeb gweithredol
- Eich gwaith
- Eich pobl
- Eich materion ariannol
- Eich cais

Crynodeb gweithredol

Mewn un neu ddau baragraff, crynhowch y canlynol:

- yr hyn mae eich sefydliad yn ei wneud
- pa angen y mae eich sefydliad yn mynd i'r afael ag ef

- ble'r ydych chi'n gweithio
- nifer y buddiolwyr yn eich sefydliad h.y. y bobl rydych yn gweithio gyda nhw
- y gwahaniaeth mae'n ei wneud
- yr hyn rydych yn gofyn i ni amdano

Eich gwaith

Does dim rhaid i chi ddefnyddio'r penawdau penodol hyn, ond gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi sylw i'r pwyntiau canlynol:

Angen

- Pa angen y mae eich sefydliad yn mynd i'r afael ag ef? Pam ei fod yn bwysig?
- Sut y mae eich gwaith yn mynd i'r afael â'r angen hwn: beth ydych chi'n ei wneud, pa wasanaethau ydych chi'n eu darparu?

Effaith a chyflawniadau

- Beth yw effaith eich sefydliad, pa wahaniaeth ydych chi'n ei wneud?
- Pwy sy'n elwa o'ch gwaith, a sut?
- Tua faint o bobl ydych chi'n gweithio gyda nhw (eich buddiolwyr)?
- Sut ydych chi'n mesur llwyddiant?

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

- Beth yw agwedd eich sefydliad tuag at Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant?
- Sut mae hyn yn berthnasol i'ch gwaith? Gall hyn fod mewn perthynas â'ch lleoliad a/neu fuddiolwyr.
- Sut mae hyn yn hysbysu eich gwaith? Er enghraifft, efallai fod gennych brosiectau arbennig ar waith i helpu grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.

Partneriaethau

Rydym yn gwerthfawrogi'r ffaith y gall partneriaethau arwain at wasanaethau gwell, a gwneud pethau'n fwy effeithlon. Os ydych chi'n cydweithredu neu mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, dywedwch wrthym am hyn.

Astudiaethau Achos

Gall astudiaethau achos a delweddau helpu i ddod â'ch cais yn fyw, a dangos effaith gwaith eich sefydliad. Mae croeso i chi eu cynnwys, yn enwedig os yw eich gwaith yn cael effaith emosiynol ac yn dod â hapusrwydd i bobl. Pan fyddwch chi'n cyflwyno eich cais ar-lein, gallwch ddarparu dolen YouTube neu Vimeo sy'n dangos clip o waith eich sefydliad – gallwn eich sicrhau ein bod ni'n gwylio pob un! Rydym yn gofyn i chi beidio â chynnwys dolen fel rhan o'ch cynnig ysgrifenedig.

Eich pobl

Mae'r sector gwirfoddol yn llawn pobl hynod brofiadol, angerddol a chymwys. Rydym yn cefnogi sefydliadau gyda phobl dalentog ac arweinwyr ysbrydoledig sydd wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth. Cofiwch gynnwys paragraff am brofiad eich uwch dîm, a'r sgiliau y mae eich Ymddiriedolwyr yn eu cyfrannu at eich sefydliad.

Eich materion ariannol

Mae'r rhan hon o'ch cais yn eithriadol o bwysig. Rydym eisiau deall:

- bod gennych gynllun cadarn i ariannu eich gwaith
- o ble daw eich cyllid
- a ydych yn dibynnu ar ffynonellau ariannu penodol
- a yw eich cymuned leol yn cefnogi eich gwaith (lle bo hynny'n berthnasol)

Mae sefydliadau sydd ag amrywiaeth o ffynonellau cyllid yn tueddu i fod â gwell siawns o fod yn ariannol gynaliadwy. Os oes rheswm pam fod eich cyllid yn dod o nifer fach o ffynonellau ar hyn o bryd, dywedwch wrthym pam, a'r hyn rydych chi'n bwriadu ei wneud i newid hyn wrth symud ymlaen.

Gwariant ac incwm rhagamcanol

Pa fath bynnag o grant rydych yn gwneud cais amdano, mae angen i ni weld rhagamcan o incwm a gwariant eich sefydliad ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Gall hon fod yn flwyddyn ariannol neu'n flwyddyn galendr, yn dibynnu ar ba un ohonynt rydych yn ei defnyddio at eich dibenion cynllunio. Os ydych chi'n gwneud cais am grant aml-flwyddyn, mae angen i ni weld eich incwm a'ch gwariant arfaethedig ar gyfer pob blwyddyn y mae eich cais yn cyfeirio ati.

Awgrymwn eich bod yn darparu dau dabl – un ar gyfer eich incwm disgwyliedig, ac un ar gyfer eich gwariant arfaethedig.

Incwm rhagamcanol
Mae angen i ni weld o ble mae incwm eich sefydliad yn debygol o ddod yn ystod y flwyddyn/ blynyddoedd sy'n berthnasol i'ch cais. Rhowch ddadansoddiad o'r incwm a gadarnhawyd, a'r incwm targed ar gyfer pob un o'ch ffynonellau cyllido. Dylai hyn nodi'n union faint o gyllid sydd wedi'i sicrhau'n barod, a beth yw eich diffyg. Efallai y bydd eich tabl yn edrych fel hyn:

Ffynhonnell incwm	Incwm targed/ disgwyliedig	Incwm a gadarnhawyd hyd yma	Nodiadau
Cyllid Statudol/ Contractau	£200,000	£100,000	Cyngor lleol heb gadarnhau parhad eu cyllid eto
Incwm arall a enillwyd	£20,000	£5,000	Gwerthiannau o fenter gymdeithasol sy'n parhau
Ymddiriedolaethau a Sefydliadau	£150,000	£75,000	Wedi sicrhau £50,000 gan un ymddiriedolaeth genedlaethol, pum addewid o £5,000 gan ymddiriedolaethau lleol penodol. Ceisiadau ar y gweill gyda chwe Sefydliad arall (rhowch eu henwau)
Rhoddion corfforaethol	£20,000	£10,000	Cwmnïau a dargedwyd yn cynnwys X, Y a Z
Rhoddion gan unigolion	£15,000	£5,000	Ymddiriedolwyr i gysylltu â ffrindiau a chydweithwyr
Digwyddiadau cymunedol	£20,000	£10,000	Cynlluniau i gynnal arwerthiannau cist car a digwyddiadau eraill
Cyfraniad o gronfeydd wrth gefn	£75,000	£75,000	Os wedi'i gynllunio
Is-gyfanswm yr incwm targed/ disgwyliedig	**£500,000**		
Is-gyfanswm yr incwm a gadarnhawyd		**£280,000**	
Diffyg	**£220,000**		

Gwnewch yn siŵr bod pob cyfanswm yn eich tablau yn gywir! Byddech chi'n synnu faint o sefydliadau sy'n anghofio, a gall hyn beri oedi i'ch penderfyniad cyllido.

Gwariant rhagamcanol
Rhowch ddadansoddiad o faint mae eich sefydliad yn bwriadu ei wario ar gyfer y flwyddyn/blynyddoedd sy'n berthnasol i'ch cais. Gallech ddefnyddio'r un penawdau ag yn eich cyfrifon blynyddol. Er enghraifft:

- cyflogau
- hyfforddiant
- costau rhaglenni
- costau swyddfa
- atgyweiriadau a chynnal a chadw
- rhent/cyfleustodau
- ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol
- llywodraethu

Efallai y bydd eich tabl yn edrych rhywbeth fel hyn:

Eitem gwariant	Swm	Nodiadau
Cyflogau	£325,000	3 staff llawn amser a 4 rhan amser
Hyfforddiant	£25,000	
Costau rhaglenni	£80,000	Gan gynnwys deunyddiau
Costau swyddfa	£20,000	
Atgyweiriadau a chynnal a chadw	£5,000	
Rhent/cyfleustodau	£35,000	
Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol	£5,000	
Costau llywodraethu	£5,000	
Cyfanswm	**£500,000**	

Os ydych chi'n gwneud cais am weithgaredd neu brosiect cyfalaf penodol, mae angen i ni wybod hefyd beth yw'r incwm a'r gwariant a ragwelir ar gyfer eich prosiect.

Cynllun incwm

Yn syml, dywedwch wrthym beth mae eich sefydliad yn ei wneud i ariannu ei waith. Dylai hyn gynnwys y gwahanol ffynonellau ariannu rydych wedi'u cynnwys yn eich tabl incwm rhagamcanol. Er enghraifft, dywedwch wrthym:

- pa ymddiriedolaethau a sefydliadau eraill rydych yn gwneud cais iddynt
- sut rydych chi'n codi arian yn y gymuned leol (lle bo hynny'n berthnasol)
- sut rydych chi'n bwriadu cynhyrchu incwm a enillir (lle bo hynny'n berthnasol)
- a ydych yn bwriadu defnyddio unrhyw rai o'ch cronfeydd ariannol wrth gefn
- a ydych chi'n derbyn unrhyw incwm contract am ddarparu eich gwasanaethau

Cynllun B

Deallwn fod codi arian yn anodd, yn enwedig yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. Rydym eisiau deall beth fydd yn digwydd os na allwch chi gael gafael ar yr holl arian sydd ei angen arnoch.

- Fydd eich gwaith yn mynd yn ei flaen, ond ar raddfa lai?
- Ydych chi'n gallu gwneud y gwaith fesul tipyn?
- A fydd angen i chi ganslo ac ailystyried?

Bydd eich cais yn gryfach os gallwn weld bod eich sefydliad wedi meddwl am ei opsiynau, hyd yn oed os ydy cynllun A yn fwy ffafriol!

Eich cyfrifon

Mae'n ofynnol i bob elusen sydd wedi'i chofrestru, ei hystyried, a'i hesemptio gynhyrchu cyfrifon ariannol bob blwyddyn. I fod yn gymwys i wneud cais, bydd angen i chi ddarparu'r cyfrifon ariannol diweddaraf sy'n ofynnol gan eich Comisiwn Elusennau. Canllaw cyfeirio cyflym yw:

- Mae'n rhaid i elusennau sydd ag incwm o dan £25,000 gyflwyno ffurflen flynyddol i'r Comisiwn Elusennau sy'n nodi eu hincwm a'u gwariant ar gyfer eu blwyddyn ariannol ddiwethaf.
- Rhaid i bob elusen gofrestredig sydd ag incwm blynyddol dros £25,000 gynhyrchu adroddiad blynyddol a chyfrifon bob blwyddyn, yn ogystal â threfnu i berson annibynnol neu gwmni cyfrifon gynnal awdit neu archwiliad annibynnol o gyfrifon eu helusen. Mae'r rheolau hyn hefyd yn berthnasol i elusennau sydd wedi'u heithrio.

O ganlyniad, bydd angen i chi gyflwyno un o'r canlynol:

- eich cyfrifon blynyddol, wedi'u harchwilio annibynnol
- copi o'ch datganiad blynyddol gan y Comisiwn Elusennau

Dywedwch wrthym os oes unrhyw beth anarferol yn eich cyfrifon, neu os oes gennych ddatganiad sydd angen ei egluro. Er enghraifft, gallwch fod wedi derbyn rhodd ariannol/cost untro annisgwyl, neu bod eich cronfeydd wrth gefn wedi'u cronni am reswm penodol

Eich cais

Gwyddom fod ceisio 'cyflwyno' eich cais yn gallu bod yn heriol. Does dim rhaid i chi ofyn am swm penodol o arian, er bod croeso i chi wneud hynny! Byddwch yn glir ynghylch beth yw anghenion ariannol eich sefydliad, a beth yw ei ddiffyg. Mae ein Hymddiriedolwyr yn brofiadol am lunio grantiau. Byddant yn defnyddio eu barn i benderfynu a ydynt yn gallu ariannu eich sefydliad, a beth yw maint y grant sy'n briodol i chi.

Canllawiau ar y rhaglen Grantiau mawr

Grantiau o £100,000 neu fwy yw'r hyn a alwn yn 'Grantiau Mawr', ac fe'u hystyrir gan ein Hymddiriedolwyr yn un o'r wyth cyfarfod Bwrdd a gynhelir bob blwyddyn.

I fod yn gymwys i gael Grant Mawr, bydd angen i'ch sefydliad gael incwm blynyddol o dros £1 miliwn, neu mae'n rhaid i'r prosiect rydych yn codi arian ar ei gyfer gael cyllideb o £1 miliwn o leiaf. Os ydych chi'n dymuno holi am Grant Mawr, anfonwch grynodeb (hyd at uchafswm o 2 ochr A4) am eich sefydliad, yr hyn rydych chi'n codi arian ar ei gyfer, eich amserlen, unrhyw ofynion pwysig fel amserlenni caniatâd cynllunio, costau, targed codi arian, a'ch diffygion i admin@garfieldweston.org a byddwn yn cysylltu â chi gyda chanllawiau pwrpasol.

Os cewch eich gwahodd i wneud cais, byddwn yn rhoi gwybod i chi ym mha un o'n cyfarfodydd Bwrdd Ymddiriedolwyr y bydd eich cais yn cael ei drafod, yn ogystal â beth yw dyddiad cau eich cais. Os na chewch eich gwahodd i wneud cais am Grant Mawr, ond eich bod yn gymwys i wneud cais am swm llai, byddwch yn gallu cyflwyno cais am Grant Rheolaidd unrhyw bryd drwy ein gwefan.

Y broses ymgeisio

Rydym yn credu ei bod yn bwysig cadw pethau'n syml! P'un ai a ydych chi'n chwilio am gostau gweithredu/craidd neu gyllid ar gyfer prosiect, gallwch wneud cais naill ai o dan ein rhaglen Grant Rheolaidd (o dan £100,000) neu ein rhaglen Grantiau Mawr (£100,000 neu fwy). Mae'r adrannau canlynol yn dweud wrthych beth yw'r broses ar gyfer y rhaglenni grant hyn.

Rhaglen Grant Rheolaidd – o dan £100,000

- Mae gennym broses syml un cam.
- Rydym yn agored i geisiadau drwy gydol y flwyddyn, ac nid oes gennym unrhyw ddyddiadau cau. Gallwch wneud cais unrhyw bryd.
- Dim ond os oes gennym unrhyw gwestiynau ynglŷn â'ch cais y byddwn yn cysylltu â chi. Fel arall, byddwn yn bwrw 'mlaen i adolygu eich cais yn syth!
- Ymddiriedolwyr sy'n penderfynu ar ganlyniad pob cais a beth yw maint y grant a allai fod yn bosibl.
- Ar ôl y cyflwyno eich cais, bydd disgwyl i chi orfod disgwyl tua pedwar mis er mwyn cael gwybod os ydych chi wedi bod yn llwyddiannus ai peidio.
- Byddwn yn anfon canlyniad eich cais atoch drwy e-bost, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi gwybod i ni os bydd manylion cyswllt allweddol eich sefydliad yn newid.

- Os bydd grant yn cael ei gynnig i chi, byddwn yn anfon Telerau ac Amodau ein Grant atoch, ac yn gofyn i chi gyflwyno manylion banc eich sefydliad drwy eich cyfrif ar-lein.
- Bydd y grant yn cael ei dalu i gyfrif banc eich sefydliad o fewn 10 diwrnod. Os bydd addewid yn cael ei gynnig i chi, bydd ein neges e-bost yn egluro unrhyw amodau penodol y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gallwch ofyn i'ch addewid gael ei gollwng.

P'un a ydych chi'n llwyddiannus ai peidio, ni fyddwch yn gallu gwneud cais arall hyd nes bydd o leiaf 12 mis wedi mynd heibio ers dyddiad ein neges e-bost yn eich hysbysu o ganlyniad eich cais diweddaraf.

Rhaglen Grantiau Mawr – £100,000 a mwy

- Anfonwch grynodeb dwy dudalen o'ch sefydliad a'r hyn rydych yn codi arian ar ei gyfer (gan gynnwys y costau, yr amserlen a'ch cynllun codi arian) i admin@garfieldweston.org.
- Byddwn yn cysylltu â chi i roi arweiniad pwrpasol. Gallai hyn fod i'ch cynghori i wneud cais am swm llai, neu i drafod y camau nesaf mewn perthynas â chais am Grant Mawr.
- Os ydych chi'n gymwys, byddwch yn cael eich gwahodd i wneud cais ar gyfer un allan o'r wyth cyfarfod Bwrdd Ymddiriedolwyr a gynhelir bob blwyddyn. Byddwn yn ceisio trefnu cyfarfod gyda chi, ein Cyfarwyddwr/Dirprwy Gyfarwyddwr ac o leiaf un Ymddiriedolwr cyn cyfarfod y Bwrdd.
- Yn dilyn cyfarfod y Bwrdd, bydd ein Cyfarwyddwr/Dirprwy Gyfarwyddwr yn cysylltu â chi o fewn 48 awr er mwyn rhannu penderfyniad yr Ymddiriedolwr â chi.
- Os bydd grant yn cael ei gynnig i chi, byddwn yn anfon Telerau ac Amodau ein Grant atoch, ac yn gofyn i chi gyflwyno manylion banc eich sefydliad drwy eich cyfrif ar-lein.
- Bydd y grant yn cael ei dalu i gyfrif banc eich sefydliad o fewn 10 diwrnod. Os bydd addewid yn cael ei gynnig i chi, bydd ein neges e-bost yn egluro unrhyw amodau penodol y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gallwch ofyn i'ch addewid gael ei gollwng.

P'un a ydych chi'n llwyddiannus ai peidio, ni fyddwch yn gallu gwneud cais arall hyd nes bydd o leiaf 12 mis wedi mynd heibio ers dyddiad ein neges e-bost yn eich hysbysu o ganlyniad eich cais diweddaraf.

Beth bynnag rydych chi'n gwneud cais amdano, dymunwn bob llwyddiant i chi. Edrychwn ymlaen at gael darllen eich cais yn fuan.